OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2011 Rhif 1012 (Cy.151)

# AMAETHYDDIAETH, CYMRU

# ADNODDAU DŴR, CYMRU

## Gorchymyn Dŵr (Atal Llygredd) (Cod Ymarfer Amaethyddol Da) (Cymru) 2011

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru. Mae'r Gorchymyn hwn yn cymeradwyo, o dan adran 97(1) o Ddeddf Adnoddau Dŵr 1991, y Cod Ymarfer Amaethyddol Da i warchod ansawdd dŵr, pridd ac aer, a ddyroddwyd gan Weinidogion Cymru ar 30 Mawrth 2011 ("y Cod Ymarfer") i'r graddau y dyroddwyd y cod ymarfer at y diben a grybwyllir yn Erthygl 2.

Mae'r Cod Ymarfer hwn yn disodli, o ran Cymru, y gwahanol Godau Ymarfer Amaethyddol Da ar gyfer Gwarchod Dŵ r, Aer a Phridd a ddyroddwyd o ran Cymru a Lloegr gan y Weinyddiaeth Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd ac Adran Amaethyddiaeth y Swyddfa Gymreig ym mis Hydref 1998.

Mae'r Gorchymyn hwn yn dirymu, i'r graddau mae'n gymwys yng Nghymru, Gorchymyn Dŵr (Atal Llygredd) (Cod Ymarfer) (Cymru) 1998 (O.S. 1998/3084) a gymeradwyodd y Cod Ymarfer Amaethyddol Da ar gyfer Gwarchod Dŵ r.

Mae'n ofynnol i Asiantaeth yr Amgylchedd, yn ôl adran 97(2) o Ddeddf Adnoddau Dŵr 1991, ystyried a fu yna unrhyw weithredu'n groes i'r Cod Ymarfer, neu a yw gweithredu o'r fath yn debygol wrth benderfynu ar pa fodd a pha bryd i arfer y canlynol:

(i) ei swyddogaethau perthnasol, o ran gweithgareddau gollwng dŵr, o dan Reoliadau Caniatáu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2010 O.S. 2010/675, a

WELSH
STATUTORY INSTRUMENTS

# 2011 No. 1012 (W.151)

# AGRICULTURE, WALES

# WATER RESOURCES, WALES

## The Water (Prevention of Pollution) (Code of Good Agricultural Practice) (Wales) Order 2011

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Order)*

This Order applies in relation to Wales. This Order approves, under section 97(1) of the Water Resources Act 1991, the Code of Good Agricultural Practice to protect water, soil and air quality which was issued by the Welsh Ministers on 30 March 2011 ("the Code of Practice"), in so far as the Code of Practice was issued for the purpose mentioned in Article 2.

The Code of Practice replaces, in relation to Wales, the separate Codes of Good Agricultural Practice for the Protection of Water, Air and Soil issued in relation to England and Wales by the Ministry of Agriculture, Fisheries and Food and the Welsh Office Agricultural Department in October 1998.

This Order revokes, in so far as it applies in Wales, the Water (Prevention of Pollution) (Code of Practice) (Wales) Order 1998 (S.I. 1998/3084) which approved the Code of Good Agricultural Practice for the Protection of Water.

The Environment Agency is required, by section 97(2) of the Water Resources Act 1991, to take into account whether there has been or is likely to be any contravention of the Code of Practice in determining when and how to exercise:

(i) its relevant functions, in relation to water discharge activities, under the Environmental Permitting (England and Wales) Regulations: S.I. 2010/675, and

(ii) unrhyw bwerau a roddir iddi gan reoliadau o dan adran 92 o'r Ddeddf honno.

Mae copïau electronig o'r Cod Ymarfer i'w cael o wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru neu ar ffurf copi caled o'r Adran Materion Gwledig, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays Caerdydd CF10 3NQ.

Nid oes asesiad effaith rheoleiddiol wedi'i lunio ar gyfer yr Gorchymyn hwn, gan na ragwelir y bydd yn effeithio ar gostau busnes na'r sector gwirfoddol.

(ii) any powers conferred upon it by regulations under section 92 of that Act.

Copies of the Code of Practice may be obtained electronically from the Welsh Assembly Government's website or in hard copy format from the Department for Rural Affairs, Welsh Assembly Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

A regulatory impact assessment has not been produced for this Order as no impact on the costs of business or the voluntary sector is foreseen.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2011 Rhif 1012 (Cy.151)

# AMAETHYDDIAETH, CYMRU

# ADNODDAU DŴR, CYMRU

## Gorchymyn Dŵr (Atal Llygredd) (Cod Ymarfer Amaethyddol Da) (Cymru) 2011

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *29 Mawrth 2011* |
| *Yn dod i rym* | *19 Ebrill 2011* |

Mae Gweinidogion Cymru, wrth arfer y pwerau a roddwyd gan adran 97(1) o Ddeddf Adnoddau Dŵr 1991(**1**) ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn.

Mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori ag Asiantaeth yr Amgylchedd yn unol ag adran 97(3)(**3**) o'r Ddeddf honno.

**Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli**

**1**.–(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Dŵr (Atal Llygredd) (Cod Ymarfer Amaethyddol Da) (Cymru) 2011.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 19 Ebrill 2011.

(3) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

(**1**) 1991 p.57

(**2**) Trosglwyddodd Erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999, ac Atodlen 1 iddo, (O.S. 1999/672) swyddogaethau "the Ministers", o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Trosglwyddwyd y swyddogaethau hyn o Gynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru o dan adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi (p.32).

(**3**) Mae adran 97(3) wedi ei diwygio gan baragraff 128 o Atodlen 22 i Ddeddf yr Amgylchedd 1995 (p.25).

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2011 No. 1012 (W.151)

# AGRICULTURE, WALES

# WATER RESOURCES, WALES

## The Water (Prevention of Pollution) (Code of Good Agricultural Practice) (Wales) Order 2011

| | |
|---|---|
| *Made* | *29 March 2011* |
| *Coming into force* | *19 April 2011* |

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred by section 97(1) of the Water Resources Act 1991(**1**) and now vested in them(**2**), make the following Order.

The Welsh Ministers have consulted the Environment Agency in accordance with section 97(3)(**3**) of that Act.

**Title, commencement, application and interpretation**

**1**.–(1) The title of this Order is the Water (Prevention of Pollution) (Code of Good Agricultural Practice) (Wales) Order 2011.

(2) This Order comes into force on 19 April 2011.

(3) This Order applies in relation to Wales.

(**1**) 1991 c.57.

(**2**) Article 2 of, and Schedule 1 to, the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672) transferred functions of "the Ministers", in relation to Wales, to the National Assembly for Wales. These functions were transferred from the National Assembly for Wales to the Welsh Ministers under section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32).

(**3**) Section 97(3) was amended by paragraph 128 of Schedule 22 to the Environment Act 1995 (c.25).

(4) Yn y Gorchymyn hwn, ystyr "y Cod Ymarfer" yw'r Cod Ymarfer Amaethyddol Da i warchod ansawdd dŵr, pridd ac aer a ddyroddwyd gan Weinidogion Cymru ar 30 Mawrth 2011(**1**).

**Cymeradwyo'r Cod Ymarfer**

**2**. Mae Gweinidogion Cymru yn cymeradwyo'r Cod Ymarfer i'r graddau y dyroddwyd y cod ymarfer at ddibenion–

(a) rhoi cyfarwyddyd ymarferol i bobl sy'n ymwneud ag amaethyddiaeth gyda golwg ar weithgareddau a all gael effaith ar ddyfroedd wedi eu rheoli(**2**); a

(b) hybu'r hyn sy'n ymddangos i Weinidogion Cymru yn arferion dymunol gan y cyfryw bersonau i osgoi llygru neu gwtogi hyd yr eithaf ar lygru unrhyw ddyfroedd o'r fath.

**Dirymu**

**3**. Mae Gorchymyn Dŵr (Atal Llygredd) (Cod Ymarfer) (Cymru) 1998(**3**) wedi ei ddirymu i'r graddau y mae'n gymwys i Gymru.

(4) In this Order, "the Code of Practice" means the Code of Good Agricultural Practice to protect water, soil and air quality which was issued by the Welsh Ministers on 30 March 2011(**1**).

**Approval of the Code of Practice**

**2**. The Welsh Ministers approve the Code of Practice in so far as the Code of Practice was issued for the purpose of–

(a) giving practical guidance to persons engaged in agriculture with respect to activities that may affect controlled waters(**2**); and

(b) promoting what appears to the Welsh Ministers to be desirable practices by such persons for avoiding or minimising the pollution of any such waters.

**Revocation**

**3**. The Water (Prevention of Pollution) (Code of Practice) (Wales) Order 1998(**3**) is revoked in so far as it applies to Wales.

*Elin Jones*

Y Gweinidog dros Faterion Gwledig, un o Weinidogion Cymru

29 Mawrth 2011

Minister for Rural Affairs, one of the Welsh Ministers

29 March 2011

©ⓗ Hawlfraint y Goron 2011

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2011

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

(**1**) Mae'r Cod ar gael yn electronig ar www.cymru.gov.uk neu ar ffurf copi caled gan Yr Adran Materion Gwledig, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

(**2**) Gweler y diffiniad o "controlled waters" yn adran 104(1) o Ddeddf Adnoddau Dŵr 1991.

(**3**) O.S. 1998/3084.

(**1**) The Code is available electronically from www.wales.gov.uk or in hard copy format from the Department for Rural Affairs, Welsh Assembly Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

(**2**) See the definition of "controlled waters" in section 104(1) of the Water Resources Act 1991.

(**3**) S.I. 1998/3084.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

**2011 Rhif 1012 (Cy.151)**

**AMAETHYDDIAETH, CYMRU**

**ADNODDAU DŴR, CYMRU**

Gorchymyn Dŵr (Atal Llygredd) (Cod Ymarfer Amaethyddol Da) (Cymru) 2011

WELSH
STATUTORY INSTRUMENTS

**2011 No. 1012 (W.151)**

**AGRICULTURE, WALES**

**WATER RESOURCES, WALES**

The Water (Prevention of Pollution) (Code of Good Agricultural Practice) (Wales) Order 2011

£4.00

W937/05/11 ON